



**RHONDDA CYNON TAF**

**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Mercher 15 Ionawr 2020 am 5.00pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Adams	Y Cynghorydd S Belzak
Y Cynghorydd R Bevan	Y Cynghorydd H Boggis
Y Cynghorydd J Bonetto	Y Cynghorydd S. Bradwick
Y Cynghorydd J Brencher	Y Cynghorydd A Calvert
Y Cynghorydd G Caple	Y Cynghorydd A Chapman
Y Cynghorydd A Cox	Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd J Cullwick	Y Cynghorydd G Davies
Y Cynghorydd J Davies	Y Cynghorydd M Diamond
Y Cynghorydd J Edwards	Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd S Evans	Y Cynghorydd M Forey
Y Cynghorydd A Fox	Y Cynghorydd H Fychan
Y Cynghorydd E George	Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd M Griffiths	Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd G Holmes	Y Cynghorydd P Howe
Y Cynghorydd J James	Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd L Jones	Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd R Lewis	Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd A Morgan	Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd M Norris	Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd S Pickering	Y Cynghorydd S Powell
Y Cynghorydd S Rees-Owen	Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd J Rosser	Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd E Stephens	Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd W Treeby	Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd M Weaver	Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd D Williams	Y Cynghorydd G Williams
Y Cynghorydd J Williams	Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd C Williams	Y Cynghorydd R Yeo

**Swyddogion yn bresennol**

Mr C. Bradshaw, Prif Weithredwr

Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

Mr J Whitehurst, Swyddog Graddedig - Y Cabinet a Cysylltiadau Cyhoeddus

Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**95 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Davies-Jones, L. De Vet, S. M. Evans, M Fidler Jones, E. Griffiths, L. Hooper, G. E. Hopkins, G. W. Hughes, G. Jones, K. L. Jones, W. Lewis, K. Morgan, D. Owen-Jones, M. J. Powell, A. Roberts, M. Tegg, R. K. Turner, E. Webster,

**96 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**Mewn perthynas ag eitem 8 ar yr agenda – Adroddiadau Blynyddol Deddf Eglwys Cymru 2018/19:-**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber - "Mae gen i rywfaint o gyswllt gyda Valleys Kids drwy'r gwaith"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan - "Rydw i'n aelod o Bwyllgor Nos Galan a Grŵp Amgylcheddol y Darren-las"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan - "Fi yw'r Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am y Cynllun Grantiau Deddf yr Eglwys"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings – "Rydw i'n aelod o Bwyllgor Nos Galan, sydd wedi gwneud cais am gyllid o'r blaen."

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis - "Rydw i'n Is-lywydd ar Gôr Meibion Abercynon."

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher - "Rydw i'n Gyfarwyddwr ar yr YMCA ym Mhontypridd"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. R. Davies - "Rydw i'n ysgrifennydd ar Eglwys Blaen-cwm, sydd wedi derbyn arian yn y gorffennol, ac yn Ymddiriedolwr ar Glwb Tennis Rhondda."

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Edwards -"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams - "Rydw i'n aelod o Glwb Criced Aberdâr"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Treeby – "Rydw i ar Bwyllgor Nos Galan sydd wedi gwneud cais am gyllid o'r blaen."

**Mewn perthynas ag eitem 6 ar yr agenda - Cyllideb Refeniw 2020/21 - Setliad Llywodraeth Leol Arfaethedig.**

Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman at y gollyngiad a gafodd hi gan y Pwyllgor Safonau ar 23 Tachwedd 2019, gan nodi'r canlynol: "Yr hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2020-2021 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid."

**Mewn perthynas ag eitem 10 ar yr agenda - Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru):**

Mr A. Wilkins, Gwasanaethau Cyfreithiol - "Yn fy swydd fel Swyddog Canlyniadau'r Cyngor, fel sydd wedi'i nodi ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)"

**(Noder:** Cafodd datganiad o fuddiant ei wneud gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees Owen yn ddiweddarach yn y cyfarfod mewn perthynas â'r

## 97 Cyhoeddiadau

- Aeth y Cadeirydd ati i estyn croeso ffurfiol i Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Edwards i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor llawn
- Aeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens ati i longyfarch un o drigolion Ystrad, Sammy Jay Frary, ar gymryd rhan mewn rhaglen deledu a fydd yn cael ei dangos dros yr wythnosau nesaf. Bydd Sammy yn gyfrifol am drefnu her gerdded a bwyd i'r cystadleuwyr eraill, cyn cael ei hasesu, a bydd y rhaglen yn dangos sawl llwybr cerdded yng Nghwm Rhondda. Dywedodd y Cyngorydd E. Stephens y bydd Sammy Jay Frary yn Llysgennad gwych ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn rhan o'r rhaglen yma.
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol W. Jones fod Wayne Warren wedi ennill Pencampwriaeth Ddartiau'r Byd yn stadiwm yr O2 yn Llundain ddydd Sul Ionawr 2020, a hynny mewn rownd derfynol yn erbyn Cymro arall. Fe yw un o'r bobl hynaf erioed i ennill y Bencampwriaeth, ac mae'n dilyn ôl troed y Cymro Leighton Rees.
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan y byddai'r poteli dŵr a'r cwpanau diodydd poeth ar ddesgiau'r Aelodau heno yn disodli'r cwpanau plastig un-tro sydd ar gael yn y Siambr ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol. Er mwyn lleihau'r defnydd o blastig yn y Cyngor, fydd y cwpanau plastig un-tro ddim ar gael i'r Aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor o hyn allan. Mae'r poteli/cwpanau newydd wedi'u darparu gan gwmni Trafnidiaeth Cymru yn ogystal ag adnoddau'r Cyngor yn dilyn ymgyrch ailgylchu.
- Roedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. James yn dymuno llongyfarch A. Davies-Jones ar gael ei hethol yn AS dros Bontypridd yn dilyn yr etholiad cyffredinol.
- Cyflwynodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries ddwy ddeiseb i'r Cadeirydd ar ran trigolion y Maerdy:-
  - Cais am fesurau tawelu traffig yn y Maerdy a'r ardal gyfagos er mwyn osgoi damweiniau a/neu niwed;
  - Cais am oleuadau Nadolig yn y Maerdy
- Cyflwynodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Holmes ddeiseb i'r Cadeirydd ar ran trigolion Llantrisant mewn perthynas â lefelau sain diangen ac annerbyniol ar hyd yr A4119.
- Cyflwynodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Stacey ddeiseb ar ran trigolion Pentre'r Eglwys yn galw am gadw Cartref Gofal Preswyl Garth Olwg ar agor.

## 98 Cofnodion

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2019, yn rhai cywir.

**Cwestiynau gan yr Aelodau****Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Andrew Morgan:**

"Wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar yr estyniad i Ffordd Osgoi Aberdâr?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"Eglurodd yr Arweinydd bod y prosiect yn gwneud cynnydd da, a bod y gwaith dylunio cychwynnol yn dal i fynd rhagddo er mwyn ymestyn Ffordd Osgoi Aberdâr a chysylltu'r A4059 a'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd. Mae'r Cyngor wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, Aelodau Lleol a'r cyhoedd i benderfynu ar fanylion y Ffordd Osgoi a fydd yn cysylltu â Ffordd Blaenau'r Cymoedd.

Eglurodd yr Arweinydd fod hwn yn brosiect sydd werth miliynau o bunnoedd, sydd â'r bwriad o lunio a datblygu estyniad. Cadarnhaodd fod buddsoddiad sylweddol y Cyngor wedi golygu bod modd i Raglen Gyfalaf y Priffyrdd ymrwymo mwy na £30 miliwn i'r prosiect, a dywedodd fod cyfanswm o £300-400 miliwn wedi'i fuddsoddi yn y cynllun ar gyfer yr A465. Bydd hyn yn gwella cysylltedd yn sylweddol ac yn gwneud gwahaniaeth i drigolion a chymudwyr."

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis:**

"Croesawodd y Cynghorydd Boggis y diweddariad a'r wybodaeth ynglŷn â chyfraniadau ariannol (Llywodraeth Cymru) i'r cynllun, a holodd am yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith."

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"Yn dilyn cwblhau'r gwaith rhagarweiniol a chytuno ar y cynlluniau terfynol, bydd y cynllun ar ben erbyn diwedd 2023. Y bwriad yw blaenoriaethu'r ffordd gyswllt fel bod y ddwy ffordd yn agor ar yr un pryd (er eu bod nhw'n cael eu darparu dan ddau contract gwahanol)."

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. R. Bevan:**

"All yr Aelod o'r Cabinet wneud datganiad ar estyn Strategaeth Eiddo Gwag y Cyngor i batrwm rhanbarthol o dan Dasglu'r Cymoedd?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan:**

"Aeth y Cynghorydd Bevan ati i atgoffa'r Aelodau fod y Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, yn ei swydd fel Cadeirydd Tasglu'r Cymoedd, wedi cytuno i ddarparu cyllid o £10 miliwn i fynd i'r afael â'r mater yma yn ôl ym mis Gorffennaf 2019, a hynny drwy roi Grant Cartrefi Gwag RhCT ar waith yn yr holl awdurdodau lleol sy'n dod o dan Dasglu'r Cymoedd (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gâr, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Torfaen, Powys a Rhondda Cynon Taf).

Yn ogystal â hynny, gofynnodd Aelodau'r Tasglu i Rondda Cynon Taf gymryd yr awenau a rheoli'r cynllun.

Ychwanegodd y Cynghorydd D. R. Bevan y cafodd Grant Cartrefi Gwag Tasglu'r Cymoedd ei lansio'n swyddogol ym mis Hydref 2019. O blith y 120 o geisiadau gan drigolion sy'n byw yn RhCT, roedd 87 ohonynt yn geisiadau dilys ac yn bodloni'r meini prawf. Mae 33 wedi'u cymeradwyo ac mae 54 yn aros i gael eu cymeradwyo. Mae'r awdurdodau lleol eraill wedi cyflwyno 80 mynegiant o ddiddordeb pellach. O blith y 33 o geisiadau sydd wedi'u cymeradwyo, cyfanswm y gwariant Grant fydd £523,000, gyda £747,000 ychwanegol yn golygu bod cyfanswm o £1.3 miliwn yn cael ei wario ar fynd i'r afael â'r mater."

#### **Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Caple:**

"Nododd y Cynghorydd Caple y dylai'r fenter gael ei chanmol, a gofynnodd am eglurhad ynglŷn ag adeiladau corfforaethol gwag, gan gyfeirio at fanc Barclays yn y Porth yn benodol a'r bwriad i'w ddymchwel."

#### **Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan:**

"Nododd y Cynghorydd Bevan fod adeilad Barclays yn eiddo gwag mewn lleoliad pwysig. Roedd e'n eiddo pwrpasol ac roedd cyfle i'r awdurdod lleol ei brynu. Ychwanegodd y bydd y gwaith o ddymchwel yr adeilad yn dechrau'r wythnos yma.

Dywedodd y Cynghorydd Bevan fod safle'r adeilad yn rhan o strategaeth adfywio'r Porth, ac mai dyma fydd lleoliad yr Hwb Trafnidiaeth newydd. Cafodd dau ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal yn rhan o'r broses yma, ac ni ddaeth unrhyw sylwadau negyddol i law ynglŷn â'r cynnig.

I gloi, nododd y Cynghorydd Bevan ei fod e'n falch o gadarnhau bod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi dyfarnu cyllid i gefnogi cam cyntaf y gwaith yn y Porth, sef y cyfleuster Parcio a Theithio."

#### **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, R Lewis:-**

"A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet roi diweddariad am gynnydd Awen mewn perthynas â'r Miwni fel canolfan ddiwylliannol ym Mhontypridd?"

#### **Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:**

"Diolchodd y Cynghorydd Lewis i'r Cynghorydd Brencher am ei chwestiwn fel un o'r Aelodau Lleol yn ardal Pontypridd. Dywedodd y byddai'r strategaeth bwysig ar gyfer y Miwni yn canolbwytio ar bensaerniaeth gothig unigryw'r adeilad, ac y byddai hyn yn gwella'r arlwy i ymwelwyr yn sylweddol. Ychwanegodd y Cynghorydd Lewis fod gan Awen weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y Miwni, a bod y sefydliad wedi ymgysylltu â phenseiri o gwmni Purcell, sy'n arbenigo mewn atgyweirio hen adeiladau.

Yn y tymor byr, dywedodd y bydd y ganolfan yn ailagor ar ddechrau'r haf yn dilyn gwaith adeiladu cychwynnol. Bydd hyn yn golygu bod modd gosod y Miwni i sefydliad Awen yn y tymor byr. Yn hirdymor, caiff strategaeth ei rhoi ar waith a fydd yn creu Canolfan ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant.

#### **Nid oedd gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher unrhyw gwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai.**

**Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. S. Fox i Arweinydd y Cyngor - Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"Yn dilyn cyhoeddi'r Setliad Llywodraeth Leol Arfaethedig, pa flaenoriaethau o ran buddsoddi fydd y Cabinet yn canolbwyntio arnyn nhw yn rhan o'i strategaeth gyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21?"

**Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"Pwysleisiodd y Cyngorydd Morgan fod y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu swyddi a gwasanaethau allweddol, yn ogystal â sicrhau rhagor o fuddsoddi mewn Ysgolion a Gofal Cymdeithasol er gwaetha'r costau a'r galw cynyddol, megis y cynnydd yn nifer y disgyblion, dyfarniad cyflogau athrawon ac ailagor Canolfan Gelf y Miwni ym mis Mehefin 2020.

Ychwanegodd y Cyngorydd Morgan fod y Cyngor wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi, yn ogystal â darparu cymorth ychwanegol i grwpiau cymunedol fel y rheiny sy'n gweithio i gynnal y pyllau padlo.

Aeth yr Arweinydd ati i atgoffa'r Aelodau y bydd y Cyngor yn rhoi sylw priodol i lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, ac yn cadw'r cynnydd mor isel â phosibl. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod y Cyngor dan ragor o bwysau ariannol nag o'r blaen."

**Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. S. Fox:**

"Croesawodd y Cyngorydd Fox ymateb yr Arweinydd, a gofynnodd, gan fod Penrhiw-ceibr ar frig y rhestr o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig, a fyddai'r strategaeth yn cael ei hymestyn i Benrhiw-ceibr a chymunedau tebyg?"

**Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"Cadarnhaodd y Cyngorydd A. Morgan y caiff y cynigion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi sydd ynghlwm â'r gyllideb eu hymestyn i Benrhiw-ceibr a chymunedau tebyg eraill (egluodd fod Penrhiw-ceibr bellach yn y pedwerydd safle o ran yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru). Ychwanegodd y byddai cymorth ychwanegol gan y 3ydd sector/cyrff cyhoeddus eraill yn atgyfnerthu'r pecynnau cymorth ar gyfer yr ardaloedd dan sylw. Ychwanegodd y Cyngorydd Morgan y byddai'n cyhoeddi cyfres o gynigion hirdymor er mwyn mynd i'r afael â thlodi yn ward y Cyngorydd Fox."

**Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Griffiths i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"Mae newid hinsawdd yn gyfrifoldeb i bob un ohonon ni. Serch hynny, dydyn ni i gyd ddim yn gwybod yr hyn gallwn ni ei wneud. Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i ymgysylltu â chymunedau o ran ymateb i her newid hinsawdd?"

**Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"Cadarnhaodd y Cyngorydd Morgan y byddai adroddiad i gyfarfod nesaf y Grŵp Llywio ar Faterion yr Hinsawdd yn amlinellu sut mae modd i'r Cyngor weithio'n well gyda chymunedau lleol er mwyn hybu'r agenda gwyrdd.

Ychwanegodd fod y targedau o ran ailgylchu wedi gwella, a'i bod hi'n bwysig ein bod ni'n dal ati i gefnogi trigolion drwy wneud eu dewisiadau'n haws. Nododd y Cyngorydd Morgan fod cydweithio â phartneriaid fel grwpiau amgylcheddol blaenllaw yn hanfodol er mwyn ymgysylltu â thrigolion a chymunedau."

**Doedd gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Griffiths ddim cwestiwn atodol i Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Andrew Morgan.**

**Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powell i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i ddod yn sefydliad carbon niwtral?"

**Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"Eglurodd y Cyngorydd Morgan fod y Cyngor wedi lleihau ei ôl-troed Carbon yn sylweddol, a hynny drwy leihau ei ddefnydd o ynni. Mae'r Cyngor wedi gwneud nifer o newidiadau, megis gosod goleuadau stryd LED yn ogystal â gosod unedau gwresogi a phŵer, a phaneli solar, mewn nifer o ysgolion ac adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda darparwyr tai er mwyn sicrhau bod isadeiledd unrhyw dai newydd yn lleihau ein ôl-troed carbon. Pwysleisiodd y Cyngorydd Morgan pa mor bwysig yw gweithio gyda thrigolion a busnesau er mwyn gwireddu ymrwymadau'r Cyngor."

**Doedd gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powell ddim cwestiwn atodol i Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Andrew Morgan.**

**Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi diweddariad am y gwelliannau â'r buddsoddiad ym Mharc Gwledig Cwm Dâr?"

**Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

"Dywedodd y Cyngorydd Crimmings fod y Cyngor wedi ymrwymo £1.4 miliwn i'r prosiect, a'i fod wedi gwneud cynnydd da mewn sawl maes megis sicrhau draenio ychwanegol. Ychwanegodd y Cyngorydd Crimmings fod y gwaith o adnewyddu cyfleusterau'r gwesty wedi dechrau, yn ogystal â gwelliannau i'r cawodydd - mae hyn yn cynnwys gosod nifer o nodweddion hygyrch megis teclynnau codi. Mae nifer y lleoedd i garafanau wedi'u cynyddu hefyd, a fydd yn helpu'r parc i groesawu rhagor o ymwelwyr. I gloi, nododd y Cyngorydd Crimmings for Parc Gwledig Cwm Dâr yn lleoliad hardd iawn ac yn atyniad pwysig i ymwelwyr.

## **100 Rhaglen Waith y Cyngor**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â rhaglen waith y Cyngor ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y byddai'r eitemau canlynol yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Cyngor fis Chwefror:-

- Mae aelodau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi'u gwahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor;

- Caiff adroddiad ei lunio a fydd yn ystyried gwelliannau i gyfleusterau ymgysylltu cyhoeddus a gweddarlledu'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth am raglen waith y Cyngor yn y dyfodol, a gan fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi'i wahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor, ymatebodd yr Arweinydd i'r pryderon a godwyd ar ôl i'w gais i siarad yn un o gyfarfodydd diweddar y Bwrdd Iechyd gael ei wrthod. Cadarnhaodd y Cynghorydd A. Morgan fod ei lythyr, a oedd yn dair tudalen o hyd, wedi'i gyflwyno cyn y cyfarfod, yn yr un modd â'i gais i siarad yn y cyfarfod. Dywedodd y Cynghorydd Morgan wrth yr Aelodau am y rhaglen ddogfen ynglŷn â Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, a fydd yn cael ei darlledu ar 27 Ionawr 2020.

## 101 Cyllideb Refeniw 2020/21 - Setliad Llywodraeth Leol Arfaethedig

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol yr Aelodau at adroddiad sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r Setliad Llywodraeth Leol Arfaethedig 2020-2021, a sylwadau cychwynnol ar ei oblygiadau tebygol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau'r Cyngor.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr y prif benawdau ynghylch y data yn ymwneud â'r setliad, gan nodi bod y setliad yn dangos cynnydd o 4.5% ar gyfer Rhondda Cynon Taf, sydd uwchlaw'r cyfartaledd, sef 4.3%. Mae ffigurau'r setliad yn amrywio o 3.0% i 5.4% ledled Cymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr nad oes unrhyw fesurau diogelu wedi'u cynnwys ar gyfer 2020/21.

Clywodd yr Aelodau fod ffigurau'r setliad ar gyfer 2020/21 yn cynnwys trosglwyddo arian i'r setliad mewn perthynas â Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG (£1.9 miliwn), y Grant Cyflog Athrawon (£12.0 miliwn) a'r Grant Pensiynau Athrawon (£39.1 miliwn). Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y parhâd a'r cynnydd (o £30 miliwn i £40 miliwn) yn y Grant ar gyfer y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd sy'n ariannu cyllideb waelodlin y Cyngor.

Cafodd yr Aelodau wybod bod y Setliad Arfaethedig yn well na'r hyn a fodelwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaraf, a'i fod yn cydnabod rhywfaint o'r pwysau ariannol ar draws llywodraethau lleol ac o fewn Rhondda Cynon Taf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau am y bwch yn y setliad arfaethedig, fel sydd wedi'i nodi yn nhabl 3 yr adroddiad. I gloi, nododd fod y targed effeithlonrwydd a oedd wedi'i bennu fel £6 miliwn wedi'i fodloni, ac y byddai'n cael ei gynnwys yng nghyllideb waelodlin y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Croesawodd yr Aelodau'r cynnydd yn y cyllid refeniw ar gyfer y Cyngor sef +4.5%, yn ogystal â chynnydd bach yn y cymorth cyfalaf. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r Setliad Llywodraeth Leol 2020/21 Arfaethedig, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 16 Rhagfyr 2019.
2. Nodi bod disgwyl i'r Setliad Llywodraeth Leol 2020/21 terfynol gael ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Chwefror 2020.
3. Nodi'r dull o ran ymgynghori ar gyllideb 2020/21, fel sydd wedi'i bennu eisoes.

## 102 Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor



Yn unol â'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yng Nghymru yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan Atodlen 1B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (mewnosodwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012), a phenderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i gymeradwyo dwy gyfres o reoliadau (a amlinellwyd yn yr adroddiad) ar 26 Tachwedd, 2013, ceisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol gymeradwyaeth yr Aelodau er mwyn mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor erbyn 31 Ionawr 2020.

Mynegodd Grŵp Plaid ei siom na fydd Llywodraeth Cymru'n diystyru'r holl bensiynau rhyfel sy'n rhan o'r cynllun yn llawn, ond yn parhau i ddiystyru cynllun Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel o £10, fel sydd wedi ragnodi.

Yn dilyn trafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** cytuno ar yr argymhellion canlynol a'r argymhelliad ychwanegol sy'n cyfleu pryderon Grŵp Plaid -

1. Nodi a mabwysiadu darpariaethau'r rheoliadau gofynion rhagnodedig a'r diwygiadau perthnasol drwy Reoliadau Diwygiadau (cymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 7 Ionawr 2020) ar gyfer Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2020/21 Cyngor, yn amodol ar y disgrisiwn lleol y mae modd i'r Cyngor ei roi ar waith;
2. Nodi canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Cyngor ynglŷn â'r disgrisiwn lleol sy'n berthnasol o ran Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer 2020/21;
3. Cadarnhau'r disgrisiwn sy'n berthnasol ar gyfer Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.3 (Tabl 2 isod) o'r adroddiad yma; a
4. Bod y Cyngor yma'n ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru er mwyn gofyn iddo wneud yn iawn am yr anghyfiawnder difrifol yma drwy amrywio'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor Cenedlaethol er mwyn rhagnodi diystyrwch llwyr yn y dyfodol, a bod gofyn i'w ymateb gael ei rannu â'r Cyngor hwn maes o law.

**Tabl 2**

<b>Rhannau yn ôl Disgrisiwn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig</b>  <i>(Rhan 5 – Materion eraill mae rhaid eu cynnwys yng nghynllun awdurdod)</i>	<b>Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Isafswm Gofyniad)</b>	<b>Gostyngiad i'w weithredu sydd wedi'i argymhell</b>
<p>Y modd i gynyddu cyfnod gostyngiad estynedig safonol o 4 wythnos sy'n cael ei roi i ymgeiswyr lle maen nhw wedi derbyn gostyngiad Treth y Cyngor sydd i ddod i ben, gan eu bod nhw wedi peidio derbyn budd-daliadau cymwys o ganlyniad i ddychwelyd i'r gwaith, cynyddu'u horiau gwaith, neu dderbyn mwy o enillion.</p> <p><i>Rheoliad 32 (3) paragraff (33) o Atodlen 1 a Rheoliad 33 (3), paragraff (35) a (40) o</i></p>	<p>4 Wythnos</p>	<p><u>Pensiynwyr:</u> Bydd cyfnod safonol o <b>4</b> wythnos sydd wedi'i nodi ym mharagraff (33) o Atodlen 1 yn berthnasol, a</p> <p><u>Y rheiny nad ydyn nhw'n Pensiynwyr:</u> Bydd cyfnod safonol o <b>4</b> wythnos sydd wedi'i nodi ym mharagraff (35) a (40) o</p>

Atodlen 6.		Atodlen 6 yn berthnasol
Y modd i ôl-ddyddio cais am Ostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer ceisiadau hwyr cyn y cyfnod safonol o 3 mis cyn i'r hawliad gael ei wneud.  <i>Rheoliad 34 (4) a pharagraff (3) a (4) o Atodlen 13.</i>	3 Mis	<u>Pensiynwyr:</u> Bydd cyfnod o <b>6</b> mis yn berthnasol,  <u>Y rheiny nad ydyn nhw'n Bensiynwyr:</u> Bydd cyfnod o <b>6</b> mis yn berthnasol,
Y modd i ddiystyru mwy na'r incwm wythnosol statudol o £10 sydd wedi'i dderbyn mewn perthynas â Phensiwn Anabled Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gwraig Weddw (i'w ddiystyru wrth gyfrifo incwm yr ymgeisydd);  <i>Rheoliad 34 (5), paragraffau 1(a) ac 1(b) Atodlen 4 a pharagraffau 20(a) ac 20(b) o Atodlen 9</i>	£10	<u>Pensiynwyr:</u> Gwerth cyfan unrhyw bensiwn a nodwyd ym mharagraffau 1 (a) a (b), Atodlen 4 i'w ddiystyru.  <u>Y rheiny nad ydyn nhw'n Bensiynwyr:</u> Gwerth cyfan unrhyw bensiwn a nodwyd ym mharagraffau 20 (a) a (b), Atodlen 9 i'w ddiystyru.

### 103 Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf Eglwys Cymru 2018/19

Yn ei adroddiad, ceisiodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol sêl bendith Cyngorwyr ar gyfer Datganiad o Gyfrifon Cronfa Deddf Eglwys Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2019; a PHENDERFYNWYD –

1. Cymeradwyo a nodi Adroddiad Blynyddol Cronfa Ddeddf Eglwys Cymru a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/2019 (Atodiad 1 yr adroddiad);
2. Cymeradwyo a nodi'r Llythyr o Gynrychiolaeth mewn perthynas â Chronfa Deddf Eglwys Cymru (Atodiad 2 yr adroddiad);
3. Trafod adroddiad yr Archwiliwr Allanol (Atodiad 3).

### 104 Adroddiad ar Newid yn yr Hinsawdd

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad mewn perthynas ag ymateb y Cyngor i Newid yn yr Hinsawdd mewn trafodaethau ag

Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Andrew Morgan) a Hyrwyddwr Materion yr Hinsawdd y Cabinet (y Cynghorydd R. Lewis).

Atgyfnerthodd yr adroddiad ymrwymiad y Cyngor i ddod yn sefydliad Carbon Niwtral erbyn 2030 a nododd yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor i allu ymateb i'r ymrwymiad. Mae'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd, is-bwyllgor Cabinet y Cyngor, wedi datblygu ei raglen waith am y chwe mis nesaf sy'n ymateb i'r agenda Newid yn yr Hinsawdd. Dywedwyd wrth yr aelodau y bydd y Grŵp Llywio yn nodi nifer o feysydd allweddol i'w hystyried, ac yn mynd i'r afael â nhw, fel dileu plastigion un-tro o holl gontractau ac adeiladau'r Cyngor (cafwyd cadarnhad y bydd hyn yn cael ei drafod cyn gynted â phosibl).

Daeth y Prif Weithredwr â'i gyflwyniad i ben trwy bwysleisio'r angen i gydweithio â thrigolion, busnesau a grwpiau cymunedol Rhondda Cynon Taf i gyflawni gweledigaeth y Cyngor.

Pwysleisiodd Arweinydd y Cyngor a Hyrwyddwr Materion yr Hinsawdd y Cabinet (y Cynghorydd Rhys Lewis) y pwyntiau a godwyd gan y Prif Weithredwr a chyfeirion nhw at nifer o argymhellion craff yr oedd Grŵp Llywio'r Cabinet eisoes wedi'u rhoi ar waith, gan nodi y byddai diweddariad ar gynnydd y Cyngor yn cael ei adrodd ddwywaith y flwyddyn.

Yn dilyn trafodaeth, cydnabu'r Aelodau fod rheoli a chynnal a chadw'r coed ar ôl eu plannu yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen plannu coed, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Byddai cydweithredu yn parhau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i sicrhau llwyddiant tymor hir y Strategaeth Goed ar gyfer RhCT.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Cytuno bod cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei darged o ran Newid yn yr Hinsawdd a bod yn Garbon Niwtral erbyn 2030 yn cael ei adrodd ddwywaith y flwyddyn i'r Cyngor am y dyfodol rhagweladwy.

## **105 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, a roddodd fanylion i'r Aelodau am y sylwadau cychwynnol gan Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn ymateb i'r cynigion yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) erbyn y dyddiad cau ar 3 Ionawr 2020.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd at sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a oedd wedi cyfarfod ddeuddydd cyn cyfarfod y Cyngor (roedd y sylwadau wedi'u cylchredeg cyn cyfarfod y Cyngor fel papur atodol i adroddiad gwreiddiol y Cyngor). Cafodd yr aelodau wybod bod y dyddiad cau gwreiddiol wedi'i ymestyn i 14 Ionawr 2020 yn dilyn cais can y Cyngor yma ganiatáu i'r pwyllgor gyfrannu at y gwaith o graffu ar y ddeddfwriaeth bwysig ac i'w farn gael ei hystyried gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru maes o law.

Ymatebodd yr Aelodau i brif bwyntiau'r sylwadau fel y ganlyn:

- Roedd yr holl aelodau o blaid ymestyn y bleidlais i bobl 16 ac 17 mlwydd oed;
- Roedd mwyafrif yr Aelodau yn erbyn y cynnig i ymestyn pleidlais llywodraeth leol i garcharorion;
- Roedd yr holl Aelodau'n cefnogi'r trefniant pleidleisio unfath a chyson yng Nghymru ac yn teimlo nad oedd yr opsiwn a oedd ar gael i awdurdodau lleol unigol ddewis system bleidleisio wahanol yn gynhyrchiol;
- Roedd yr holl Aelodau o blaid y cynigion ar gyfer darlledu cyfarfodydd yn electronig gyda'r gefnogaeth a'r cyllid angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru; ac
- Roedd yr holl Aelodau'n glir y dylai'r holl swyddi statudol fod yn wahanol ac ar wahân (gan gynnwys swydd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid (a151)) ac ni ddylai fod cyfle i swyddog ymgymryd â dwy rôl statudol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r Aelodau hynny a fynychodd y cyfarfod i lunio ymateb i'r cynigion yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

**PENDERFYNWYD** cydnabod sylwadau cychwynnol Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu erbyn 3 Ionawr 2020 ac ymateb y pwyllgor cyfan i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) gan fodloni'r dyddiad cau diwygiedig ac unigryw ar gyfer Cyngor RhCT, sef 14 Ionawr 2020 (wedi'i atodi i'r adroddiad fel eitem atodol).

## 106 **Adolygiad o Ddosbarthau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio 2019**

Trwy ei adroddiad, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth yr Aelodau fod gofyn i Awdurdodau Lleol adolygu dosbarthau pleidleisio, manau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio mewn perthynas ag etholiadau seneddol o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod y mater, a oedd i fod i ddod gerbron y Cyngor yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2019, wedi'i ohirio oherwydd yr Etholiad Cyffredinol.

Cafodd yr aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 sy'n crynhoi'r ymatebion i'r Adolygiad o Ddosbarthau Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio ac Atodiad 2 sy'n amlinellu'r cynigion i ddiwygio Dosbarthau Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio presennol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau am un diwygiad i'r wybodaeth gyhoeddedig: -

- Bydd yr RMB yn Tylorstown yn dychwelyd i'r Neuadd Les nad oedd ar gael ar y pryd oherwydd llifogydd (diwygiad y cytunwyd arno gan yr Aelodau lleol).

Cydnabu'r Cyfarwyddwr fod etholiadau'r gaeaf wedi gweld rhai problemau'n codi gyda gorsafoedd pleidleisio penodol ond sicrhodd yr Aelodau y byddai lleoliadau amgen yn cael eu nodi a'u harchwilio ar gyfer etholiadau yn y dyfodol, ac y byddai hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Adolygiad o Ddosbarthau Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio sydd wedi'u crynhoi yn Atodiad 2 yr adroddiad;
2. Cymeradwyo'r cynigion i ddiwygio Dosbarthau Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio presennol sydd wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad a nodi y byddai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gweithredu unrhyw newidiadau i'r gofrestr etholwyr o ganlyniad; a
3. Nodi y bydd y Swyddog Canlyniadau yn parhau i fonitro Dosbarthau Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd pleidleisio fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 2 a / neu lle nad oes lleoliad amgen addas ar gael ar unrhyw adeg berthnasol nodi y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

### **107 Penodi Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu ei adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Cyngor am benderfyniad Aelod Lleyg Pwyllgor Archwilio'r Cyngor i ymddiswyddo ar ddiwedd Blwyddyn 2019-2020 y Cyngor. Mae'r adroddiad yn nodi ymhellach y trefniadau i benodi Aelod Lleyg yn ei le yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Estynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ei ddiolch i'r Aelod Lleyg presennol, Mr Roger Hull, am ei wasanaeth i'r Pwyllgor Archwilio dros lawer o flynyddoedd. Cyfeiriodd ef yr Aelodau ymhellach at adran pump yr adroddiad a oedd yn nodi'r broses ar gyfer penodi'r Aelod Lleyg newydd trwy Bwyllgor Penodiadau trawsbleidiol y Cyngor a fyddai wedyn yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor o'i argymhelliad yn dilyn y broses gyfsweld a dethol.

Estynnodd nifer o Aelodau eu diolchgarwch i'r Aelod Lleyg cyfredol am ei wasanaethau i'r Pwyllgor Archwilio.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cydnabod penderfyniad Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio i ymddiswyddo o'i swydd ar ddiwedd Blwyddyn 2019/20 y Cyngor;
2. Gweithredu'r trefniadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, sy'n ymwneud â phenodi Aelod Lleyg newydd i'r Pwyllgor Archwilio am dymor yn y swydd sy'n cychwyn o ddechrau Blwyddyn 2020/21 y Cyngor tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol arferol nesaf yn 2022; a
3. Nodi fod y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio cyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a'i gylch gorchwyl.

### **108 Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor**

Yn ei adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu wrth yr Aelodau am ganlyniad yr adolygiad o Gydbwysedd Gwleidyddol yr Awdurdod, yn dilyn yr is-etholiad yn Ward Ynyshir.

## **PENDERFYNWYD:**

1. Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma.
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, i benodi i gyrff gwleidyddol cytbwys, pan fydd yn derbyn hysbysiad o ddymuniadau'r grŵp gwleidyddol, yn amodol ar dderbyn unrhyw geisiadau dilynol i newid aelodaeth y Pwyllgorau sydd wedi'u cyfeirio at y Cyngor.
3. Nodi nad yw Aelodau'r Cabinet yn gymwys i'w penodi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu na'r Pwyllgorau Craffu.
4. Nodi bod modd i o leiaf un Aelod o'r Cabinet eistedd ar y Pwyllgorau Archwilio a Gwasanaethau Democrataidd, ond bod Arweinydd y Cyngor wedi'i eithrio o'r swyddi yma.
5. Dyrannu'r 20 Rhybudd o Gynnig fel sy'n ofynnol o dan Reol Gweithdrefn y Cyngor 10.2(a) dros Flwyddyn 2019-2020 y Cyngor fel a ganlyn:-

Llafur: 10  
Plaid Cymru: 5  
Y Gynghair: 2  
Annibynnol: 1  
Y Blaid Geidwadol: 1  
'Aelodau heb eu Neilltuo': 1

### **109 Pecynnau Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd a Diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion**

Yn dilyn argymhellion gan Banel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd y Cyngor, dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wrth yr Aelodau am y pecyn diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion (fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad) yn unol â datganiad Polisi Cyflog y Cyngor ar gyfer 2018/19, sydd wedi'i gymeradwyo.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo pecyn diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion (fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad) yn unol â datganiad Polisi Cyflog y Cyngor ar gyfer 2018/19, sydd wedi'i gymeradwyo, ac yn dilyn argymhellion Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd y Cyngor.

### **110 Penderfyniadau Brys o dan Swyddogaethau Gweithredol**

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), adroddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu am y penderfyniadau brys a ddygwyd ymlaen trwy benderfyniad dirprwyedig allweddol yn ystod y cyfnod Hydref – Rhagfyr 2019 a **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth sy wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

**PENDERFYNODD** yr Aelodau y byddai Rheol 10.6 o Ddull Gweithredu'r Cyngor yn cael ei atal, gan fod Eilydd y Rhybudd o Gynnig, sef Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones wedi ymddiheuro. Roedd hyn yn golygu bod modd ystyried y Rhybudd o Gynnig isod yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees, G. Jones, L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. W. Hughes, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S. Powderhill, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo:

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd i ystyried adroddiad, sy'n archwilio'r cyfleoedd sydd i'w cael trwy raglen plannu coed wedi'i thargedu yn ein Bwrdeistref Sirol, i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, lleihau perygl llifogydd a gwella ansawdd yr aer yn lleol. Mae'r Cyngor hwn yn credu y byddai modd cyflawni hyn trwy:

- 1) Plannu coed ar dir sy'n eiddo i'r cyngor,
- 2) Tyfu rhagor o goed mewn mannau cyhoeddus a chymunedol,
- 3) A gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi y gallai dyblu gorchudd coed ledled y DU leihau lefel y carbon deuocsid o 50 miliwn tonnall yn flynyddol, sef tua 10% o allyriadau cyfredol y DU.

Mae coed hefyd yn darparu manteision ychwanegol y tu hwnt i'w pwysigrwydd hanfodol wrth gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net: mae coed yn creu rhagor o le i fyd natur, gan gynnal cannoedd o rywogaethau o bryfed, adar a mamaliaid. Mae coed hefyd yn wych ar gyfer iechyd y cyhoedd, gan helpu i lanhau'r aer a rhoi cyfle i brofi byd natur, sy'n bwysig i'n lles.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi hefyd, rôl bwysig priddoedd sydd heb eu tarfu a llystyfiant naturiol wrth storio carbon. Gall dulliau naturiol mewn perthynas â storio carbon, megis y rheiny sy'n ymwneud â choed, mawnog, rhostiroedd, glaswelltir sych a chorsiog a chynefinoedd naturiol eraill ledled y Fwrdeistref Sirol hefyd gyfrannu at leihau effaith nwyon tŷ gwydr a gwella ansawdd aer.

Mae llawer o ddulliau arloesol eisoes wedi cael eu hystyried ledled y DU ac o ganlyniad i dirwedd naturiol ein Bwrdeistref Sirol, mae'r Cyngor hwn yn credu bod Rhondda Cynon Taf mewn sefyllfa dda i arwain ar y gwaith plannu coed er mwyn cyflawni'r buddion sydd wedi'u nodi.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Cynigydd), G. R. Davies (Eilydd), E. Webster, J. Davies, J. Cullwick, J. Williams, A. Cox, H. Fychan, D. Grehan, E. Griffiths, K. Morgan, S. Rees Owen, M. Weaver, S. Evans, A. Chapman, L. Jones ac E. Stephens:

**(Dileu: Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd i ystyried adroddiad, sy'n archwilio'r cyfleoedd sydd i'w cael**

**trwy raglen plannu coed wedi'i thargedu yn ein Bwrdeistref Sirol, i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, lleihau perygl llifogydd a gwella ansawdd yr aer yn lleol. Mae'r Cyngor hwn o'r farn bod modd cyflawni hyn trwy:**

- 1) Plannu coed ar dir sy'n eiddo i'r cyngor,**
- 2) Tyfu rhagor o goed mewn mannau cyhoeddus a chymunedol,**
- 3) A gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.)**

**(Ychwanegu – Mae'r Cyngor hwn yn croesawu bwriad Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd i archwilio'r cyfle i blannu rhagor o goed yn y Sir i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'n croesawu hefyd y bwriad i ddatblygu strategaeth goed y Cyngor fel sydd wedi'i nodi ym mharagraffau 5.6 i 5.8 o Adroddiad y Prif Weithredwr yn dilyn trafodaethau ag Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Andrew Morgan a Hyrwyddwr materion yr Hinsawdd y Cyngor, y Cyngorydd Rhys Lewis, a gafodd ei drafod fel eitem fusnes yn gynharach yn y cyfarfod heddiw.**

*Gan ragweld y bydd y Grŵp Llywio yn cymryd tystiolaeth i gefnogi'r fenter hon gan yr holl bartion â diddordeb, gan gynnwys y Cyngor Llawn, rydyn ni eisiau cynnig y canlynol i'w hystyried.*

*Mae'r Cyngor hwn yn credu y byddai modd cyflawni hyn trwy*

- 1. Plannu, a chynnal a chadw coed ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor*
- 2. Tyfu, a chynnal a chadw rhagor o goed mewn mannau cyhoeddus a chymunedol*
- 3. A gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.)*

Mae'r Cyngor hwn yn nodi y gallai dyblu gorchudd coed ledled y DU leihau lefel y carbon deuocsid o 50 miliwn tunnell yn flynyddol, sef tua 10% o allyriadau cyfredol y DU.

Mae coed hefyd yn darparu manteision ychwanegol y tu hwnt i'w pwysigrwydd hanfodol wrth gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net: mae coed yn creu rhagor o le i fyd natur, gan gynnwys cannoedd o rywogaethau o bryfed, adar a mamaliaid. Mae coed hefyd yn wych ar gyfer iechyd y cyhoedd, gan helpu i lanhau'r aer a rhoi cyfle i brofi byd natur, sy'n bwysig i'n lles.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi hefyd, rôl bwysig priddoedd sydd heb eu tarfu a llystyfiant naturiol wrth storio carbon. Gall dulliau naturiol mewn perthynas â storio carbon, megis y rheiny sy'n ymwneud â choed, mawnog, rhostiroedd, glaswelltir sych a chorsiog a chynefinoedd naturiol eraill ledled y Fwrdeistref Sirol hefyd gyfrannu at leihau effaith nwyon tŷ gwydr a gwella ansawdd aer.

Mae llawer o ddulliau arloesol eisoes wedi cael eu hystyried ledled y DU ac o ganlyniad i dirwedd naturiol ein Bwrdeistref Sirol, mae'r Cyngor hwn yn credu bod Rhondda Cynon Taf mewn sefyllfa dda i arwain ar y gwaith plannu coed er mwyn cyflawni'r buddion sydd wedi'u nodi.

### **Byddai'r Cynnig diwygiedig yn dweud:**

Mae'r Cyngor hwn yn croesawu bwriad Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd i archwilio'r cyfle i blannu rhagor o goed yn y Sir i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'n croesawu hefyd y bwriad i ddatblygu strategaeth goed y Cyngor fel sydd wedi'i nodi ym mharagraffau 5.6 i 5.8 o Adroddiad y Prif Weithredwr yn dilyn trafodaethau ag Arweinydd y Cyngor, y



Cynghorydd Andrew Morgan a Hyrwyddwr materion yr Hinsawdd y Cyngor, y Cynghorydd Rhys Lewis, a gafodd ei drafod fel eitem fusnes yn gynharach yn y cyfarfod heddiw.

Gan ragweld y bydd y Grŵp Llywio yn cymryd tystiolaeth i gefnogi'r fenter hon gan yr holl bartion â diddordeb, gan gynnwys y Cyngor Llawn, rydyn ni eisiau cynnig y canlynol i'w hystyried.

Mae'r Cyngor hwn yn credu y byddai modd cyflawni hyn trwy

1. Plannu, a chynnal a chadw coed ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor
2. Tyfu, a chynnal a chadw rhagor o goed mewn mannau cyhoeddus a chymunedol
3. A gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi y gallai dyblu gorchudd coed ledled y DU leihau lefel y carbon deuocsid o 50 miliwn tonnall yn flynyddol, sef tua 10% o allyriadau cyfredol y DU.

Mae coed hefyd yn darparu manteision ychwanegol y tu hwnt i'w pwysigrwydd hanfodol wrth gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net: mae coed yn creu rhagor o le i fyd natur, gan gynnal cannoedd o rywogaethau o bryfed, adar a mamaliaid. Mae coed hefyd yn wych ar gyfer iechyd y cyhoedd, gan helpu i lanhau'r aer a rhoi cyfle i brofi byd natur, sy'n bwysig i'n lles.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi hefyd, rôl bwysig priddoedd sydd heb eu tarfu a llystyfiant naturiol wrth storio carbon. Gall dulliau naturiol mewn perthynas â storio carbon, megis y rheiny sy'n ymwneud â choed, mawnog, rhostiroedd, glaswelltir sych a chorsiog a chynefinoedd naturiol eraill ledled y Fwrdeistref Sirol hefyd gyfrannu at leihau effaith nwyon tŷ gwydr a gwella ansawdd aer.

Mae llawer o ddulliau arloesol eisoes wedi cael eu hystyried ledled y DU ac o ganlyniad i dirwedd naturiol ein Bwrdeistref Sirol, mae'r Cyngor hwn yn credu bod Rhondda Cynon Taf mewn sefyllfa dda i arwain ar y gwaith plannu coed er mwyn cyflawni'r buddion sydd wedi'u nodi.

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r diwygiad.

Yn dilyn trafodaeth bellach mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cynnig.

B. Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: J. Edwards, S. Morgans, L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De- Vet, J. Elliott, S.Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. W. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo

Mae'r bwriad i gael gwared ar Drwyddedau Teledu am ddim i drigolion dros 75 oed sydd ddim yn derbyn credyd pensiwn yn enghraifft arall o esgeulustod y

Llywodraeth Geidwadol mewn perthynas â'n cymunedau.

Mae disgwyl y bydd tua 3.7 miliwn o bobl hŷn ledled y DU yn cael eu heffeithio gan y newidiadau, ac mae'r elusen Age UK wedi rhybuddio y bydd bwrw ymlaen â'r cynlluniau yma, a gafodd eu darparu ar sail addewidion ffug gan y BBC ynglŷn â chytuno i ariannu budd-dal i bensiynwyr o dan gytundeb siarter gyda Llywodraeth Geidwadol David Cameron yn 2015, yn golygu y bydd mwy na 50,000 o bensiynwyr ledled y DU yn croesi'r ffin o ran tlodi.

Mae trigolion hŷn yn wynebu risg penodol o brofi unigrwydd ac ynysu cymdeithasol, ac mae 4 o bob 10 ohonyn nhw yn dweud mai'r teledu yw eu prif ffordd o gael cwmni, sy'n profi'r ffaith yma. Bydd cael gwared ar y drwydded yn cael effaith andwyol iawn ar eu lles.

Er i'r Llywodraeth ddatgan bod mesurau cyni drosodd, bydd bwrw ymlaen â'r cam yma'n golygu bod y rheiny sydd â'r angen mwyaf yn colli budd arall, a bydd hyn yn fath arall o galedi y bydd yn rhaid i'n pobl fwyaf agored i niwed ei wynebu.

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar y pedwar Aelod Seneddol sydd newydd eu hethol ar gyfer etholaethau Rhondda Cynon Taf i ysgrifennu at y Gweinidog priodol er mwyn rhoi pwysau ar y Llywodraeth i ymyrryd a darparu sicrwydd cadarn na fydd pawb dros 75 oed yn colli eu trwyddedau teledu am ddim.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Cynigydd), G. R. Davies (Eilydd), E. Webster, J. Davies, J. Cullwick, J. Williams, A. Cox, H. Fychan, D. Grehan, E. Griffiths, K. Morgan, S. Rees Owen, M. Weaver, S. Evans, A. Chapman, L. Jones ac E. Stephens:

Mae'r bwriad i gael gwared ar Drwyddedau Teledu am ddim i drigolion dros 75 oed sydd ddim yn derbyn credyd pensiwn yn enghraifft arall o esgeulustod y Llywodraeth Geidwadol mewn perthynas â'n cymunedau.

Mae disgwyl y bydd tua 3.7 miliwn o bobl hŷn ledled y DU yn cael eu heffeithio gan y newidiadau, ac mae'r elusen Age UK wedi rhybuddio y bydd bwrw ymlaen â'r cynlluniau yma, a gafodd eu darparu ar sail addewidion ffug gan y BBC ynglŷn â chytuno i ariannu budd-dal i bensiynwyr o dan gytundeb siarter gyda Llywodraeth Geidwadol David Cameron yn 2015, yn golygu y bydd mwy na 50,000 o bensiynwyr ledled y DU yn croesi'r ffin o ran tlodi.

Mae trigolion hŷn yn wynebu risg penodol o brofi unigrwydd ac ynysu cymdeithasol, ac mae 4 o bob 10 ohonyn nhw yn dweud mai'r teledu yw eu prif ffordd o gael cwmni, sy'n profi'r ffaith yma. Bydd cael gwared ar y drwydded yn cael effaith andwyol iawn ar eu lles.

Er i'r Llywodraeth ddatgan bod mesurau cyni drosodd, bydd bwrw ymlaen â'r cam yma'n golygu bod y rheiny sydd â'r angen mwyaf yn colli budd arall, a bydd hyn yn fath arall o galedi y bydd yn rhaid i'n pobl fwyaf agored i niwed ei wynebu.

**(Ychwanegu - Er mwyn unioni'r anghyfiawnder hwn yn y dyfodol mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli cyfrifoldeb am Ddarlledu a Lles i Gymru lle y bydd dull mwy tosturiol yn cael ei weithredu**

### **mewn perthynas â materion o'r fath.)**

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar y pedwar Aelod Seneddol sydd newydd eu hethol ar gyfer etholaethau Rhondda Cynon Taf i ysgrifennu at y Gweinidog priodol er mwyn rhoi pwysau ar y Llywodraeth i ymyrryd a darparu sicrwydd cadarn na fydd pawb dros 75 oed yn colli eu trwyddedau teledu am ddim, **(ac i ofyn bod cyfrifoldeb am Ddarlledu a Lles yn cael ei ddatganoli i Gymru er mwyn gwasanaethu a gwarchod hawliau dinasyddion Cymru yn well).**

### **Byddai'r Cynnig diwygiedig yn dweud:**

Mae'r bwriad i gael gwared ar Drwyddedau Teledu am ddim i drigolion dros 75 oed sydd ddim yn derbyn credyd pensiwn yn enghraifft arall o esgeulustod y Llywodraeth Geidwadol mewn perthynas â'n cymunedau.

Mae disgwyl y bydd tua 3.7 miliwn o bobl hŷn ledled y DU yn cael eu heffeithio gan y newidiadau, ac mae'r elusen Age UK wedi rhybuddio y bydd bwrw ymlaen â'r cynlluniau yma, a gafodd eu darparu ar sail addewidion ffug gan y BBC ynglŷn â chytuno i ariannu budd-dal i bensiynwyr o dan gytundeb siarter gyda Llywodraeth Geidwadol David Cameron yn 2015, yn golygu y bydd mwy na 50,000 o bensiynwyr ledled y DU yn croesi'r ffin o ran tlodi.

Mae trigolion hŷn yn wynebu risg penodol o brofi unigrwydd ac ynysu cymdeithasol, ac mae 4 o bob 10 ohonyn nhw yn dweud mai'r teledu yw eu prif ffordd o gael cwmni, sy'n profi'r ffaith yma. Bydd cael gwared ar y drwydded yn cael effaith andwyol iawn ar eu lles.

Er i'r Llywodraeth ddatgan bod mesurau cyni drosodd, bydd bwrw ymlaen â'r cam yma'n golygu bod y rheiny sydd â'r angen mwyaf yn colli budd arall, a bydd hyn yn fath arall o galedi y bydd yn rhaid i'n pobl fwyaf agored i niwed ei wynebu.

Er mwyn unioni'r anghyfiawnder hwn yn y dyfodol mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli cyfrifoldeb am Ddarlledu a Lles i Gymru lle y bydd dull mwy tosturiol yn cael ei weithredu mewn perthynas â materion o'r fath.

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar y pedwar Aelod Seneddol sydd newydd eu hethol ar gyfer etholaethau Rhondda Cynon Taf i ysgrifennu at y Gweinidog priodol er mwyn rhoi pwysau ar y Llywodraeth i ymyrryd a darparu sicrwydd cadarn na fydd pawb dros 75 oed yn colli eu trwyddedau teledu am ddim, ac i ofyn bod cyfrifoldeb am Ddarlledu a Lles yn cael ei ddatganoli i Gymru er mwyn gwasanaethu a gwarchod hawliau dinasyddion Cymru yn well.

**(Nodyn:** Datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen fuddiant personol ar y pwynt yma - "Mae gen i gontract gyda'r BBC tan ddiwedd mis Ionawr")

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r gwelliant.

**(Nodyn:** Roedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen yn dymuno cofnodi ei bod hi wedi ymatal rhag pleidleisio)

Yn dilyn trafodaeth bellach mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ac yn unol â

Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cynnig.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.25pm**

**Y Cynghorydd S Powderhill  
Cadeirydd**